Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Arweiniad atodol ar gyfer arolygwyr annibynnol ac ychwanegol

Dysgwyr mwy abl a dawnus

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

Cynnwys		Tudalen

1	Cyflwyniad	1
2	Diffiniad o ddysgwyr mwy abl a dawnus	1
3	Nodweddion dysgwyr mwy abl a dawnus	2
4	Llinellau ymholi defnyddiol	3
5	Cyfeiriadau	5

1 Cyflwyniad

1 Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y dechrau gorau mewn bywyd gyda chyfleoedd ac anogaeth i gyflawni eu potensial dysgu llawn. Ym mis Mai 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru set o Safonau Ansawdd[1] i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion dysgwyr mwy abl a dawnus.

2 Mae'r Arweiniad Atodol hwn ar gyfer arolygwyr annibynnol ac ychwanegol yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo wrth arolygu safonau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru.

3 Yn yr arweiniad hwn, cyfeirir at leoliadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac UCDau fel darparwyr. Defnyddir y term ymarferwr i gynnwys athrawon, hyfforddwyr a staff cymorth dysgu.

2 Diffiniad o ddysgwyr mwy abl a dawnus

4 Nid oes unrhyw ddiffiniad cytûn o ddysgwyr a fyddai fel arfer yn cael eu cydnabod fel dysgwyr mwy abl. Yng Nghymru, defnyddir y term 'mwy abl a dawnus' i ddisgrifio dysgwyr sydd angen cyfleoedd i gyfoethogi ac ymestyn sy'n mynd y tu hwnt i'r rheiny a ddarperir ar gyfer y garfan gyffredinol o ddysgwyr.

5 Gellir ystyried bod tua 20 y cant o ddysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yn fwy abl, tra bo'r ddau y cant uchaf yn cael eu hystyried yn eithriadol o abl. Mae ystod eang o rinweddau, nodweddion a phrosesau yn cyfrannu at botensial a chyflawniad uchel. Mae'r term 'mwy abl a dawnus' yn cynnwys dysgwyr sy'n fwy abl ar draws pynciau yn y cwricwlwm, yn ogystal â'r dysgwyr hynny sy'n dangos dawn mewn un maes penodol neu fwy, fel cerddoriaeth, chwaraeon a drama.

6 Mae'n bwysig cydnabod bod nodi dysgwyr mwy abl a dawnus wedi'i gysylltu â'u cyd-destun, waeth sut mae'r dysgwyr hyn yn cymharu â dysgwyr mwy abl a dawnus mewn darparwyr eraill. Mae hyn yn golygu y dylech ddisgwyl canfod grŵp o ddysgwyr ym mhob darparwr y nodwyd eu bod yn fwy abl a dawnus, yn ogystal â darpariaeth addas ar gyfer eu datblygiad trwy ehangder a dyfnder eu profiadau a'u gweithgareddau dysgu.

7 Mae gallu a dawn yn gallu amlygu eu hunain mewn llawer o ffyrdd, er enghraifft, dysgwyr sy'n mynd yn gyflym iawn trwy gerrig milltir cynnar neu'r rheiny sy'n dysgu medrau newydd yn hawdd gydag ychydig iawn o ailadrodd ac atgyfnerthu. Gall galluoedd a doniau dysgwyr ddatblygu dros gyfnod hefyd. Gallai rhai dysgwyr fod yn ddatblygwyr hwyr neu fod angen y cyfleoedd a ddarperir gan amgylchedd dysgu sy'n cyfoethogi arnynt er mwyn darganfod yr hyn y maent yn gallu ei wneud. Dylech fod yn ymwybodol y gallai anfodlonrwydd neu ddiffyg hoffter rhai dysgwyr o gydymffurfio guddio eu gallu uchel, tra gallai doniau rhai dysgwyr mwy abl a dawnus fod mewn meysydd datblygu anghonfensiynol.

[1] Cylchlythyr Arweiniad Cyflawni'r Her Rhif 006/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru

8 Ffenomenau datblygiadol yw gallu uchel a dawn, sy'n gallu amrywio dros gyfnod. Gallai rhai dysgwyr fod yn fwy abl a dawnus ar adeg benodol yn eu datblygiad, ond peidio â pharhau felly'n barhaol. Yn ychwanegol, mae dysgwyr mwy abl a dawnus yn cael trafferth â rhai o'r medrau sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf, er enghraifft, darllen, ond mae ganddynt gryfderau serch hynny mewn deallusrwydd neu ddoniau penodol fel cerddoriaeth, celf a chwaraeon.

9 Er bod angen profiadau dysgu estynedig ar ddysgwyr mwy abl a dawnus i gyrraedd eu potensial llawn, gall darparu cwricwlwm cyfoethocach wella ansawdd y dysgu a gwella'r safonau ar gyfer dysgwyr o **bob** gallu a dawn. Felly, bydd trefnu darpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr mwy abl a dawnus o fudd i bob dysgwr, ac yn rhoi cyfleoedd ac anogaeth iddynt gyflawni eu potensial dysgu llawn.

3 Nodweddion dysgwyr mwy abl a dawnus

10 Gallai fod yn ddefnyddiol i chi ymgyfarwyddo â'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn 'Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys rhestrau gwirio cyffredinol a rhai sy'n benodol i bwnc sy'n amlinellu ystod o rinweddau i helpu nodi dysgwyr mwy abl a dawnus. Yn benodol, mae'r cyhoeddiad yn amlinellu ystod o rinweddau bras a ddangosir yn aml gan ddysgwyr mwy abl a dawnus mewn meysydd dysgu ac agweddau ar draws y cwricwlwm, fel:

- meddu ar wybodaeth gyffredinol eang; maent yn aml yn gwybod mwy na'r athro, ac yn gweld y cyfeirlyfrau arferol yn arwynebol;
- dangos mewnwelediad da i berthynas achos ac effaith;
- amgyffred egwyddorion gwaelodol yn hawdd, ac angen yr esboniad lleiaf;
- gwneud cyffredinoliadau yn gyflym a dethol y pwyntiau perthnasol o ddeunydd cymhleth;
- dangos chwilfrydedd eithriadol ac eisiau gwybod pam yn gyson; a
- bod yn sylwgar wrth drafod cymhellion, anghenion a breuder[2] pobl.

11 Er ei bod yn annhebygol y byddai dysgwr mwy abl a dawnus yn portreadu pob un o'r rhinweddau a nodir yn yr arweiniad, gallai llawer o ddysgwyr arddangos nifer o'r nodweddion hyn.

[2] Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad 2003 Llywodraeth Cynulliad Cymru

4 Llinellau ymholi defnyddiol

12 Dylech ddisgwyl gweld bod darparwyr yn ymestyn ehangder a dyfnder y gwaith ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol. Yn y gorffennol, roedd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus yn aml yn cael ei chyfyngu i waith y tu allan i oriau, fel darpariaeth wythnosol y sgwadiau ysgrifennu ar gyfer awduron ifanc abl iawn. Er bod y cyfleoedd hyn yn parhau i fod yn bwysig, nid ydynt yn gallu disodli cyfoethogiad ac ymestyniad y profiadau dysgu y mae angen iddynt ddigwydd bob dydd.

13 Mae angen i gynllunio ac addysgu ar draws y cwricwlwm gynnig her, dyfnder ac amrywiaeth o brofiadau ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus. Dylai darparwyr wneud yn siŵr bod gwaith lefel uchel a beichus ar gyfer y dysgwyr hyn, yn enwedig trwy ddatblygu a chymhwyso medrau meddwl, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau rhif ar draws y cwricwlwm[3]. Er y bydd ffocws ar 'ddysgu am ddysgu' yn berthnasol i bob dysgwr, bydd yr agwedd hon yn arbennig o fanteisiol i'r dysgwyr hynny sy'n fwy abl a dawnus.

14 Dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith fod yn rhaid i nodi dysgwyr mwy abl a dawnus fod yn broses hyblyg sy'n cynnwys ystod o strategaethau, sy'n adlewyrchu'r ffordd ddynamig y gallai gallu a dawn amlygu eu hunain. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu y dylai darparwyr sicrhau bod y broses nodi yn barhaus a dylai osgoi asesiad 'unwaith ac am byth' o ddysgwyr.

15 Mae gwella safonau ym mhob maes addysg yn dibynnu'n hanfodol ar ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth. Un o nodweddion allweddol y darparwyr sy'n perfformio'n dda yw ansawdd gwaith arweinwyr a rheolwyr sydd â disgwyliadau uchel, yn sicrhau bod hyfforddiant cyfoes rheolaidd a pherthnasol ar gyfer ymarferwyr ac sy'n ymgymryd â monitro rheolaidd ac arfarnu trylwyr i wneud yn siŵr bod dysgu ac addysgu cystal ag y gallant fod i **bob** dysgwr.

16 Gallai'r llinellau ymholi nesaf helpu darparu gwybodaeth i gynorthwyo eich barnau am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr mwy abl a dawnus a'r ddarpariaeth ar gyfer eu datblygiad a chyrraedd safonau uchel.

C Sut mae'r darparwr yn diffinio dysgwyr mwy abl a dawnus?

C Pa mor dda y mae'r darparwr yn casglu, yn dadansoddi ac yn defnyddio ystod o ddata cyrhaeddiad, gan gynnwys data perfformiad mewn chwaraeon, cerddoriaeth a'r celfyddydau creadigol?

C Sut mae'r darparwr wedi cynnwys dysgwyr, llywodraethwyr a rhieni, lle bo'n briodol, wrth nodi potensial?

C A yw'r darparwr yn rhoi ystyriaeth briodol i faterion cyfle cyfartal ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr, er enghraifft, trwy gynnwys dysgwyr abl sydd dan anfantais, y rheiny sydd ag anableddau a'r rheiny o grwpiau lleiafrifoedd ethnig?

[3] Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed 2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru

C A yw'r broses o nodi dysgwyr mwy abl a dawnus yn hyblyg ac yn barhaus ac yn cynnwys ystod o strategaethau?

C Pa mor dda y mae'r darparwr yn defnyddio ystod o ddata i fonitro cynnydd pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr mwy abl a dawnus?

C Sut mae'r darparwr yn trefnu ei ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus?

C A yw'r ddarpariaeth yn ddigon hyblyg a heriol i ddiwallu anghenion dysgwyr mwy abl a dawnus ac a yw ymarferwyr yn osgoi dulliau sy'n dibynnu ar ei gwneud yn ofynnol i'r dysgwyr hyn wneud mwy o'r un gwaith neu waith estynedig lefel is fel posau a chwisiau?

C A yw'r ddarpariaeth yn cynnwys cyfoethogi ac ymestyn yn y dosbarth yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer dysgu y tu allan i'r ysgol?

C Pa mor dda y mae ymarferwyr yn ystyried gwahanol alluoedd ac anghenion dysgu dysgwyr ac a ydynt yn darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau dysgu gradd uwch, medrau datrys problemau a medrau meddwl yn eu cynllunio a'u haddysgu?

C A oes ethos sy'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr ac yn annog datblygiad emosiynol, cymdeithasol, corfforol a deallusol?

C A yw polisïau'r darparwr yn cefnogi arfer gyson ac effeithiol ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus?

C A oes datblygiad staff i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu harbenigedd eu hunain wrth nodi a diwallu anghenion dysgwyr mwy abl a dawnus?

C A yw ymarferwyr yn ymwybodol y gallai materion fel anfodlonrwydd guddio gallu uchel ac y gall cryfderau penodol dysgwr fod mewn meysydd datblygu anghonfensiynol?

C A oes gan y darparwr gysylltiadau gydag ysgolion, colegau, yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol a sefydliadau eraill sy'n helpu ymestyn a chyfoethogi profiadau dysgwyr ymhellach?

C A yw dysgwyr yn cael mynediad at adnoddau addas, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a ffynonellau ymchwil a gwybodaeth, sy'n ennyn diddordeb, yn herio ac yn ymestyn eu dysgu ac yn galluogi iddynt gyflawni eu potensial llawn?

C A yw llywodraethwyr yn ymwneud â sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr mwy abl a dawnus?

C A yw polisïau'r darparwr a'r dysgu a'r addysgu yn cael eu monitro'n systematig a'u harfarnu'n drylwyr i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cyflawni eu potensial llawn?

5 Cyfeiriadau

ACCAC (2003) Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad

Estyn (2008) Arolygu Darpariaeth Addysgol ar gyfer Plant cyn yr Oedran Ysgol Gorfodol

Estyn (2008) Y Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Llawlyfr Arweiniad

Estyn (2002) Arweiniad ar arolygu amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn ysgolion a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) Y Wlad sy'n Dysgu

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Gweledigaeth ar Waith

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Cyflawni'r Her: Cylchlythyr Rhif 006/2008